*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**
**Dydd Iau, 20fed Chwefror, 2020 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2020. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. YMRWYMIAD Y CYNGOR I DDARPARU GWASANAETHAU CYNGHORI ADDYSG AR Y CYD YN Y DYFODOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet drafod penderfyniad Cydbwyllgor Consortiwm Canolbarth y De i barhau i ddarparu gwasanaethau cynghori addysg ar y cyd, mewn partneriaeth â'r pedwar cyngor arall yn y rhanbarth, am y tair blynedd nesaf o leiaf.

**(Tudalennau 5 - 86)**

**3. POLISI FFÏOEDD A THALIADAU'R CYNGOR 2020-2021**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet adolygiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, 2020/21, (pob un i'w gweithredu o 1 Ebrill 2020 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny/oni nodir yn wahanol).

**(Tudalennau 87 - 96)**

**4. CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2020/21**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi'r cyfle i'r Cabinet drafod strategaeth gyllideb ddrafft y bydden nhw'n dymuno ei chyflwyno i'r Cyngor, a'i diwygio yn ôl yr angen.

**(Tudalennau 97 - 158)**

**5. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2020/21-2022/23**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n cyflwyno i'r Cabinet raglen gyfalaf dair blynedd arfaethedig ar gyfer 2020/21 hyd at 2022/23, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo, os yw'n dderbyniol.

**(Tudalennau 159 - 182)**

**6. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”


**7. CAFFAEL YR HEN NEUADD BINGO, PONTYPRIDD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor, sy'n ceisio awdurdod i gaffael budd rhydd-ddaliad yr eiddo presennol yn 79-85 Stryd Fawr a 75-77 Stryd Fawr, Pontypridd, sef yr hen Neuadd Bingo.

**(Tudalennau 183 - 190)**

**8. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu